**ADRODDIAD I FFORWM ARDAL DWYFOR**

07 Mawrth 2016

**Pwnc:** CYNLLUN CYFLOGAETH LLŶN AC EIFIONYDD

**Swyddog cyswllt:** Dylan Griffiths
Rheowr Strategaeth a Datblygu, Economi a Chymuned
dylanrhysgriffiths@gwynedd.gov.uk

---

Cais i Fforwm Ardal Dwyfor argymell i'r Cyngor fabwysiadu 'Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd' fel sail ar gyfer cyfeirio ymdrechion y Cyngor a'i bartneriaid i gynnal a chreu gwaith yn ardal Dwyfor.

---

## Cefndir

Yng Nghynllun Strategol 2013 - 2017 y Cyngor ymrwymwyd i sefydlu Cynllun Cyflogaeth i ardal Llŷn ac Eifionydd gan ddilyn y model sefydlwyd gyda chreu Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd gan y Cyngor yn 2010.

Drwy weithio ag Aelodau Fforwm Ardal Dwyfor dros gyfnod o flwyddyn yn ystod 2014 a 2015 lluniwyd Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd (Atodiad 1).

Gyda'r ansicrwydd ynglŷn â'r adnoddau fyddai ar gael i weithredu'r Cynllun Cyflogaeth yn sgil y broses Her Gwynedd, oedwyd cwblhau'r ddogfen yn derfynol a'i gyflwyno i'w fabwysiadu.  Gyda gwell sicrwydd bellach o'r adnoddau fydd ar gael, fe gyflwynir y drafft terfynol y Cynllun nawr i sylw'r Fforwm Ardal.

Bwriedir i'r Cynllun ddarparu sail i'r dyfodol gan grynhoi'r prif negeseuon i'r Cyngor a'i bartneriaid wrth gynllunio i gynnal a chreu gwaith yn Nwyfor.  Bydd y Cynllun yn fodd o gyfeirio a chydlynu ymdrechion i sicrhau fod ymyraethau yn effeithiol ac yn effeithlon.

Bydd y Cynllun hefyd yn gymorth i gyflogwyr Llŷn ac Eifionydd ac i'r rhai sydd yn ystyried sefydlu menter yn yr ardal gan ei fod yn crynhoi amgylchiadau'r economi ac yn amlygu meysydd sydd yn cynnig cyfle.

Gyda golwg ar y gynulleidfa ar gyfer y Cynllun, yn dilyn trafodaeth blaenorol y Fforwm Ardal, adolygwyd ffurf (ond nid cynnwys) y Cynllun  er mwyn sicrhau fod y wybodaeth a'r casgliadau mor glir a chryno a phosib i'r darllenwr.  Yn ogystal, fe luniwyd Rhaglen Waith cychwynnol ar gyfer blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynllun, hyd at 31 Mawrth 2017 (wele adran 8 y Cynllun).

## Camau nesaf ac amserlen

O dderbyn penderfyniad y Fforwm Ardal, bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i sylw aelodau Cabinet y Cyngor ar 15 Mawrth 2016 ac yna'n cael ei fabwysiadu'n ffurfiol.

Wedi mabwysiadu'r Cynllun bydd Rhaglen Waith diwygiedig i'r Cynllun yn cael ei lunio yn flynyddol a'i gyflwyno i sylw'r Fforwm Ardal ynghyd ag adolygiad o'r hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol.

---

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| ATODIAD 1 | DRAFFT Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd |